# Uned Atal Trais Cymru

## e-Fwletin | Medi 2024

Uned Atal Trais
Violence Prevention Unit

# TABLE CYNNWYS


## 2 CROESO

## 3 UCHAFBWYNTIAU'R CHWARTER

**CYHOEDDIAD NEWYDD:** Pecyn Cymorth Ymgysylltu â Dynion a Bechgyn i Atal Trais
**BRIFFIAD NEWYDD:** 'Achosion o Anffurfio Organau Cenhedlu (FGM) a Brofwyd gan Fenywod sy'n Byw yng Nghymru'
Adeiladu **Cymru Heb Drais:** Cyfres Sesiynau Bord Gron yr Haf
**#DdimYrUn** – Ymgyrch Hysbysebu'r Haf
**Peer Action Collective** – Ymchwilwyr Cymheiriaid
**Cyflwyniadau**

## 13 YMYRIADAU

Tîm Atal Trais y GIG
Gweithredu dros Blant
Ymarferydd Cymorth mewn Ysbyty, Abertawe
Parallel Lives
Fearless
Braver Choices
Cydgysylltwyr Ymyrryd yn Gynnar ac Atal
Prosiect Positive Masculinity

## 23 Y CHWARTER MEWN RHIFAU

# CROESO

Annwyl gydweithwyr,

Croeso i e-Fwletin Uned Atal Trais Cymru.
Rydym yn ymrwymedig i ddod â phartneriaid at ei gilydd er mwyn sicrhau bod gennym ddull cydgysylltiedig o atal trais, gan hyrwyddo atebion i drais sydd wedi'u dylunio ar y cyd, a hynny rhwng sefydliadau a gyda chymunedau, a phlant a phobl ifanc. Ein huchelgais yw gweithio gyda phartneriaid tuag at Gymru sy'n rhydd rhag trais wrth sicrhau yr ymatebir iddo'n effeithiol ac yn ddiogel pan fydd yn digwydd.

Mae'r rhifyn hwn hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am feysydd allweddol o'n gwaith sy'n ymwneud â'r uchelgais hwn. Rydym yn rhannu manylion yr ymyriadau a gomisiynwyd gennym, gan gynnwys unrhyw uchafbwyntiau o'r chwarter diwethaf, yn ogystal â diweddariadau ar gyhoeddiadau newydd gan gynnwys y Pecyn Cymorth Ymgysylltu â Dynion a Bechgyn i Atal Trais.

Fel y gŵyr y rhan fwyaf ohonoch rwy'n siŵr, mae Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu sydd newydd eu hethol yn datblygu Cynlluniau yr Heddlu a Throseddu, sy'n nodi eu meysydd ffocws a'u blaenoriaethau ar gyfer plismona. Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru, Emma Wools, yn ymgynghori ar yr hyn y dylid ei gynnwys yn y Cynllun ar gyfer De Cymru. Byddwn yn ddiolchgar pe gallai ein partneriaid yn Ne Cymru gwblhau'r ymgynghoriad a rhannu manylion â'r cymunedau rydych yn gweithio gyda nhw fel bod pawb yn cael cyfle i ddweud eu dweud. Yn ogystal â'r arolwg, mae'r Comisiynydd yn cynnal cynllun grantiau bach, sef ‘Dywedwch wrth Emma’, sy'n darparu hyd at £500 i sefydliadau llawr gwlad i hwyluso sesiynau adborth yn eu cymunedau. Gallwch ddysgu mwy am yr arolwg a'r cynllun grantiau bach ar wefan Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru:
Cliciwch yma i weld arolwg yr ymgynghoriad
Cliciwch yma i ddysgu mwy am ‘Dywedwch wrth Emma’

Mae croeso i chi gysylltu â ni os bydd gennych unrhyw gwestiynau am ein gwaith neu sut y gallwn ni eich cefnogi.

**Dan Jones**
***Pennaeth Uned Atal Trais Cymru***

# Y CHWARTER MEWN RHIFAU

## Cyhoeddiad Newydd

## Pecyn Cymorth Ymgysylltu â Dynion a Bechgyn i Atal Trais




Mae gwaith ymchwil hanfodol gan Uned Atal Trais Cymru yn nodi ystyriaethau o ran y ffordd orau o ymgysylltu â dynion a bechgyn i atal trais.

Mae trais yn broblem gymdeithasol, ac mae'n aml yn deillio o normau cymdeithasol a stereoteipiau niweidiol sy'n cynnal anghydraddoldeb. Mae'r normau a'r stereoteipiau hyn yn cael effaith andwyol ar bawb, ac mae gan bawb ran i'w chwarae wrth newid y naratif. Fodd bynnag, yn hanesyddol, mae mentrau i atal trais i raddau helaeth wedi esgeuluso'r rôl hanfodol y gall dynion a bechgyn ei chwarae fel cynghreiriaid a chenhadon.

Gan gydnabod pwysigrwydd cynnwys pawb yn yr ateb, mae'r Uned Atal Trais wedi lansio'r 'Pecyn Cymorth Ymgysylltu â Dynion a Bechgyn i Atal Trais', mewn partneriaeth â Plan International UK. Mae'r Pecyn Cymorth hwn yn dwyn ynghyd dystiolaeth academaidd ac arbenigedd proffesiynol er mwyn helpu i ddatblygu rhaglenni cynhwysol, hygyrch a diddorol i ddynion a bechgyn. Ar hyn o bryd, mae'r Pecyn Cymorth yn cynnwys dau adroddiad a ffeithlun:

- "Rydych chi wedi rhoi'r hyder i mi herio'r ffordd y mae bechgyn yn trin merched" Canfyddiadau Allweddol o Brosiectau 'Profi a Dysgu' yng Nghymru – mae'r adroddiad hwn yn rhannu canfyddiadau o grwpiau ffocws a gynhaliwyd fel rhan o brosiectau Profi a Dysgu Plan International UK. Yn bennaf, mae'n archwilio tystiolaeth o ymarfer ac o lenyddiaeth sy'n ymdrin â'r ffactorau galluogi a'r rhwystrau sy'n gysylltiedig ag ymgysylltu â dynion a bechgyn wrth atal trais.

- Buddsoddi mewn cynghreiriaid a chenhadon – Ymgysylltu â dynion a bechgyn i atal trais: Adolygiad o Raglenni yng Nghymru – mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno rhaglenni yng Nghymru sy'n anelu at ymgysylltu â dynion a bechgyn i atal trais. Nodwyd y rhaglenni hyn gan weithwyr proffesiynol fel rhan o arolwg, ac mae'r adroddiad hwn yn darparu ystyriaethau i ymarferwyr, ymchwilwyr, gwneuthurwyr polisi a chomisiynwyr mewn perthynas â datblygu prosiectau, gan gynnwys gwerthuso, a rhoi prosiectau ar waith.
- Ffeithlun sy'n nodi'r ystyriaethau allweddol sy'n deillio o'r ddau adroddiad wrth gynllunio a gweithredu rhaglenni i ymgysylltu â dynion a bechgyn i atal trais.





Fel rhan o'r broses o roi Fframwaith Cymru Heb Drais ar waith, bydd y Pecyn Cymorth yn parhau i ddatblygu er mwyn darparu amrywiaeth o wybodaeth hygyrch er mwyn deall, cefnogi a chynnal asesiad beirniadol o'r rhan y gall rhaglenni sydd wedi'u cynllunio'n benodol i gefnogi dynion a bechgyn ei chwarae wrth atal trais.

Cliciwch yma i weld y Pecyn Cymorth ar wefan Cymru Heb Drais

Cliciwch yma i lawrlwytho graffigau er mwyn helpu i rannu'r adroddiad (bydd y ddolen hon yn agor Google Drive)

Os nad ydych yn gallu agor Google Drive ond yr hoffech gael graffigau er mwyn rhannu'r adroddiad, anfonwch e-bost i PHW.ViolencePreventionUnit@wales.nhs.uk



# Briffiad Newydd

## ‘Achosion o Anffurfio Organau Cenhedlu (FGM) a Brofwyd gan Fenywod sy'n Byw yng Nghymru’

Bob blwyddyn, mae Uned Atal Trais Cymru yn llunio'r adroddiad ‘Achosion o Anffurfio Organau Cenhedlu (FGM) a Brofwyd gan Fenywod sy'n Byw yng Nghymru’, gan ddefnyddio'r data a gasglwyd drwy lwybr clinigol anffurfio organau cenhedlu benywod Cymru gyfan.

Mae adroddiad 2023/24 bellach ar gael. Nod yr adroddiad blynyddol hwn yw:

- Rhoi trosolwg o'r lefel bresennol a'r tueddiadau mewn perthynas â rhoi gwybod am achosion o anffurfio organau cenhedlu a brofwyd gan fenywod sy'n byw yng Nghymru
- Deall pa mor ddefnyddiol yw'r data a gesglir a cheisio nodi unrhyw bwyntiau data ychwanegol y byddai'n ddefnyddiol gwybod amdanynt.


Gellir gweld yr adroddiad yn y storfa ar Borth Atal Trais Cymru. Mae'r Porth yn llwyfan digidol sy'n cadw data dienw sy'n galluogi defnyddwyr i ddeall tueddiadau trais yng Nghymru at ddibenion ymarfer gweithredol a strategol.

Cliciwch yma i wneud cais am gyfrif Porth. Nid yw'r Porth ar gael i'r cyhoedd a dim ond drwy ddefnyddio cyfeiriadau e-bost sefydliadol y gellir cofrestru ar ei gyfer.

# Adeiladu Cymru Heb Drais:
## Cyfres Sesiynau Bord Gron yr Haf

***Rwy'n deall y dull yn well ac yn teimlo'n fwy hyderus yn ei roi ar waith.Gwnes i fwynhau'r trafodaethau ac mae wedi rhoi rhywbeth i mi feddwl amdano.***
***-ADBORTH GAN GYFRANOGWR***

Ym mis Mehefin a mis Gorffennaf, cynhaliodd Uned Atal Trais Cymru ddwy drafodaeth bord gron â phartneriaid amlasiantaethol o bob cwr o Gymru. Aeth y sesiynau bord gron, a gyflwynwyd mewn partneriaeth â Thîm Gwyddor Ymddygiad Iechyd Cyhoeddus Cymru, ati i ystyried y posibilrwydd o integreiddio gwyddor ymddygiad i'r broses o fabwysiadu'r naw egwyddor atal trais o Fframwaith Cymru Heb Drais.




Mae egwyddorion atal trais y Fframwaith yn seiliedig ar dystiolaeth ac fe'u lluniwyd ar y cyd â gweithwyr proffesiynol, plant a phobl ifanc yng Nghymru. Maent yn cynnig sail i bawb ystyried nodweddion y broses o roi dull iechyd y cyhoedd ar waith yng Nghymru.


Yn ystod y sesiwn gyntaf, soniodd yr Uned Atal Trais sut y gellir

defnyddio gwyddor ymddygiad i ddeall y gwahanol rwystrau a chyfleoedd i fabwysiadu dull iechyd y cyhoedd, gan fanteisio ar arbenigedd gan Uned Gwyddor Ymddygiad Iechyd Cyhoeddus Cymru. Wedyn trafododd y cyfranogwyr pa ymddygiadau/arferion sydd eu hangen er mwyn rhoi'r naw egwyddor atal trais ar waith. Canolbwyntiodd yr ail sesiwn ar nodi'r rhwystrau a'r hwyluswyr ar gyfer datblygu'r ymddygiadau craidd a nodwyd yn ystod y sesiwn gyntaf, cyn ystyried pa gymorth ac adnoddau sydd eu hangen er mwyn rhoi dull iechyd y cyhoedd ar waith yn ehangach mewn perthynas â gweithgareddau atal trais yng Nghymru.

Bydd canfyddiadau'r sesiynau hyn yn helpu i ddatblygu cynllun gweithredu Cymru Heb Drais. Bydd y cynllun hwn yn manylu ar y cymorth y bydd yr Uned Atal Trais yn ei gynnig i'n partneriaid dros y flwyddyn nesaf, er mwyn cefnogi dull iechyd y cyhoedd mewn perthynas ag atal trais yng Nghymru.

Bydd adroddiad ar y canfyddiadau ar gael maes o law, felly cadw lygad allan!

## #DdimYrUn
## Ymgyrch Hysbysebu'r Haf




Mae'n bosibl y byddwch wedi gweld hysbysebion yr ymgyrch atal troseddau'n ymwneud â chyllyll #DdimYrUn yn ystod gwyliau'r haf.

Mae #DdimYrUn yn defnyddio dull ymyrryd yn gynnar o atal troseddau sy'n ymwneud â chyllyll, gan gefnogi oedolion y gellir ymddiried ynddynt, yn cynnwys rhieni, athrawon, swyddogion yr heddlu a gweithwyr ieuenctid, i addysgu plant a phobl ifanc 11-16 oed am beryglon a chanlyniadau cario cyllell. Lansiwyd adnoddau newydd ym mis Ebrill 2024, ac maent wedi cael eu lawrlwytho o'r wefan

dros 1,000 o weithiau. Drwy gydol mis Gorffennaf a mis Awst, rhannwyd yr ymgyrch hefyd â phlant a phobl ifanc drwy'r cyfryngau cymdeithasol, ar Snapchat a Tiktok, yn ogystal ag mewn mannau fel gorsafoedd rheilffordd ac ar fysiau. Er bod adnoddau'r ymgyrch yn cael eu defnyddio'n bennaf gan oedolion yr ymddiriedir ynddynt i ddechrau sgyrsiau â phobl ifanc am droseddau sy'n ymwneud â chyllyll, roedd Uned Atal Trais Cymru a Heddlu De Cymru am sicrhau bod plant a phobl ifanc a'u rhieni yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael iddynt yn ystod gwyliau'r ysgol.




Roedd pob hysbyseb yn cyfeirio pobl at wefan #DdimYrUn, lle gallant lawrlwytho adnoddau, gwylio cyfweliadau fideo â phobl y mae troseddau sy'n ymwneud â chyllyll wedi effeithio arnynt a chael gafael ar wybodaeth am wasanaethau cymorth.

Rydym yn aros am ganlyniadau arolwg o 250 o bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed yn Ne Cymru a gynhaliwyd ar ddiwedd yr ymgyrch i ofyn eu barn am droseddau sy'n ymwneud â chyllyll ac ymgyrch #DdimYrUn.

Mae'r dadansoddiadau cychwynnol o'r hysbysebion ar y cyfryngau cymdeithasol yn dangos ein bod wedi llwyddo i gyrraedd cyfanswm o ychydig dros 100,000 o bobl ifanc 16 ac 17 oed yn Ne Cymru, a chafwyd 4,901 o ymweliadau â gwefan yr ymgyrch drwy'r hysbysebion ar Snapchat a 6,217 o ymweliadau drwy TikTok.

Ewch i https://southwales.nottheone.co.uk/cy/ i weld yr ymgyrch!

# Peer Action Collective Cymru ac Uned Atal Trais

## yn cynllunio ar gyfer y flwyddyn i ddod!



Ym mis Awst, cyfarfu tîm Uned Atal Trais Cymru ag ymchwilwyr cymheiriaid ac arweinwyr o Peer Action Collective Cymru (PAC) i gynllunio ein partneriaeth ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Cawsom ddiwrnod ardderchog, a llwyddwyd i lunio cynlluniau i ni gydweithio ar lawer o brosiectau ymchwil ac ymgysylltu cyffrous.

Cadwch lygad allan am ragor o wybodaeth!

Cynhaliodd yr Uned Atal Trais hefyd gyfweliadau ag ymchwilwyr cymheiriaid PAC er mwyn cael gwybod sut roeddent yn gallu helpu gweithwyr proffesiynol a phlant a phobl ifanc i ddysgu gan ei gilydd.

# Ymchwilwyr Cymheiriaid PAC:

## Cau'r Bwlch rhwng Plant a Phobl Ifanc, a Gweithwyr Proffesiynol

**Fe wnes i ddod yn ymchwilydd cymheiriaid gan nad oeddwn i'n gweld digon o bobl ifanc yn cael cyfleoedd i gael dylanwad Dwi'n teimlo nad oes digon o bwyslais yn cael ei roi ar safbwyntiau pobl ifanc pan fyddan nhw'n sôn wrth weithwyr proffesiynol am eu profiadau.**
***-MUNA***

**Ymunais â'r tîm er mwyn cael cyfle i rannu fy mhrofiadau a sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu clywed**
***-ANASTASIIA***

**Dwi'n rhan o grŵp i bobl ifanc LHDTC+ o'r enw GWIR ac roedd pennaeth y grŵp ar y pryd yn gwybod bod diddordeb gen i mewn gweithredu cymdeithasol a sicrhau newid i bobl ifanc. Dywedodd wrtha i am ymchwilwyr cymheiriaid PAC a dyma fi!**
***-TESNI***

Mae **Muna** (18), **Tesni** (17) ac **Anastasiia** (20) yn ymchwilwyr cymheiriaid PAC Cymru. Mae PAC Cymru, a ariennir gan y Gronfa Gwaddol Ieuenctid, yn rhwydwaith o bobl ifanc sy'n benderfynol o greu newid cadarnhaol yn eu cymunedau drwy gynnal gwaith ymchwil arloesol a chymryd camau rhagweithiol i ymdrin â materion sy'n gysylltiedig â thrais ymhlith plant a phobl ifanc. Mae ymchwilwyr cymheiriaid PAC wedi gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid amlasiantaethol amrywiol fel yr **Heddlu**, **Canolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol Plant Prifysgol Caerdydd (CASCADE)** a'r **Uned Atal Trais** ar amrywiaeth eang o bynciau, gan gynnwys deall achosion trais ymhlith plant a phobl ifanc ac ystyried rôl oedolion yr ymddiriedir ynddynt. Mae'r grŵp hwn o ymchwilwyr ifanc yn chwarae rhan bwysig wrth sicrhau y caiff lleisiau plant a phobl ifanc

eu clywed ac mae eu gwaith yn cau'r bwlch rhwng plant, pobl ifanc a gweithwyr proffesiynol. “Er mai pobl ifanc ydyn ni hefyd, dydyn ni ddim yn gwybod yn union beth mae pob un person ifanc yn ei wynebu. Rydyn ni'n cwrdd â phobl o wahanol ddiwylliannau a chefndiroedd ethnig a gall fod profiadau gwahanol gan bob un ohonyn nhw, felly rydyn ni bob amser yn dysgu pethau newydd gan y bobl ifanc rydyn ni'n siarad â nhw. Rydyn ni bob amser yn dysgu ac yn ehangu ein safbwyntiau,” dywedodd Muna.

Mae'r tîm yn ymwybodol bod angen creu man diogel a chynhwysol er mwyn i bobl ifanc deimlo'n gyfforddus wrth rannu eu profiadau a siarad. Er mwyn sicrhau eu bod yn creu man diogel, maent yn cynnig cyfarfod â nhw mewn lleoedd y maent yn teimlo'n gyfforddus ynddynt, yn addasu cwestiynau ac yn sicrhau bod cymorth ar gael os bydd ei angen. Cafwyd adborth cadarnhaol gan rieni a gweithwyr, a chan y bobl ifanc eu hunain, am y dulliau a ddefnyddir i gyfathrebu ac i gysylltu â phlant a phobl ifanc. Nododd Tesni fod y ffaith bod yr ymchwilwyr cymheiriaid yn grŵp amrywiol a'u bod yn bobl ifanc eu hunain yn golygu ei bod hi'n haws uniaethu â nhw a bod plant a phobl ifanc yn teimlo'n fwy cyfforddus yn cysylltu â nhw. “Rydyn ni'n gwrando ar bopeth. Pob un peth, waeth pa mor annisgwyl, cynnil neu gwbl benodol – rydyn ni'n gwrando ar eu llais ac yn sicrhau y cânt eu clywed. Dydyn ni ddim yn gweld plant a phobl ifanc fel blychau ticio ar gyfer cwblhau gwaith ymchwil, ond fel pobl â gwahanol brofiadau,” dywedodd Tesni.

Yn ogystal â chreu man diogel i'r bobl ifanc siarad, mae aelodau'r grŵp hefyd yn sicrhau eu bod yn parhau i weithio gyda'r plant a'r bobl ifanc a'u bod yn atgyfnerthu eu bond gyda'r unigolion hynny. “Rydyn ni'n aros mewn cysylltiad â'r bobl ifanc, ac yn gwneud yn siŵr eu bod yn gwybod y gallan nhw gysylltu â ni eto'n ddiweddarach os bydd angen. Rydyn ni'n rhwydweithio â nhw ac yn eu gwahodd i'n digwyddiadau gan ein bod ni hefyd yn cynnal gweithdai a grwpiau ffocws,” dywedodd Anastasiia. Caiff rhai o'r digwyddiadau hyn eu dylanwadu gan eu gwaith ymchwil a'r hyn y maent wedi ei glywed gan y bobl ifanc. Nododd yr ymchwilwyr cymheiriaid hefyd eu bod yn gweithio gyda gweithwyr proffesiynol, gan sicrhau bod profiadau pobl ifanc yn dylanwadu ar waith polisi ac wrth wneud penderfyniadau, yn enwedig mewn perthynas â thrais ymhlith plant a phobl ifanc, gan felly helpu i greu Cymru heb drais.

# CYFLWYNIADAU

Cyflwynodd **Dr Alex Walker**, **Swyddog Canlyniadau Atal Trais**, ei gwaith '**Trais yn Erbyn Pobl Hŷn yng Nghymru**' yng Nghynhadledd Flynyddol Consortiwm UKPRP VISION ym mis Mehefin 2024, gan gefnogi Consortiwm VISION wrth ddatblygu ymchwil academaidd ar drais.

Yn ei chyflwyniad, dadansoddodd Dr Walker ddata o amrywiaeth o ffynonellau er mwyn meithrin gwell dealltwriaeth o ba mor gyffredin yw trais yn erbyn pobl hŷn yng Nghymru. Roedd y ffynonellau data yn cynnwys yr Heddlu, y sector Iechyd a'r trydydd sector, ar gyfer trais yn erbyn yr unigolyn, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae canfyddiadau'r adroddiad yn dangos bod trais yn erbyn pobl hŷn yn broblem sylweddol o hyd yng Nghymru.

Caiff adroddiad newydd ei lunio bob blwyddyn, a disgwylir i'r adroddiad nesaf gael ei gyhoeddi ym mis Hydref 2024.

Mae'r holl ddata a ddarparwyd gan y sector iechyd a'r heddlu a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad ar gael ar Borth Cymru Heb Drais. Gallwch gofrestru ar ei gyfer yma.



# YMYRIADAU

**Mae Uned Atal Trais Cymru yn ariannu nifer o ymyriadau yn Ne Cymru, fel rhan o Grant yr Uned Lleihau Trais a ddyrennir i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru. Mae'r ymyriadau hyn yn canolbwyntio ar gefnogi plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o drais neu sy'n wynebu risg o ddioddef trais.**

**Isod, gallwch ddarllen y wybodaeth ddiweddaraf am bob ymyriad, gan gynnwys nifer y bobl sydd wedi cael cymorth.**

**Mae'r ffigurau ar gyfer pob ymyriad a nodir isod yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 01.04.2024 a 30.06.2024**

## *Tîm Atal Trais y GIG*

Mae Tîm Atal Trais y GIG yn gweithredu yn Adrannau Achosion Brys Ysbyty Athrofaol Cymru (BIP Caerdydd a'r Fro), Caerdydd ac Ysbyty Treforys, Abertawe (BIP Bae Abertawe). Mae'r ddau dîm yn cael eu goruchwylio gan eu priod Bennaeth Diogelu. Mae'r tîm yn cynnwys nyrs gymwysedig ac eiriolwr. Mae ei waith yn canolbwyntio ar ddarparu cyngor, cymorth ac arweiniad i gleifion o bob oedran sydd wedi dioddef trais gydag anaf, gyda'r nod o ymgysylltu â'r rhai a gafodd eu hanafu, pan fyddant yn yr ysbyty, er mwyn helpu i dorri'r cylch trais ar adeg argyfwng.
Yng Nghaerdydd, lansiodd y tîm wasanaeth Cyfannol yn ddiweddar, sef y gwasanaeth Diogelu a Llesiant cyntaf mewn Adran Achosion Brys yng Nghymru. Mae'r gwasanaeth hwn yn cynnwys amrywiaeth o weithwyr proffesiynol o wasanaethau iechyd arbenigol, gan gynnwys timau atal trais, cam-drin domestig, iechyd meddwl ac unigolion sy'n dod i'r adran yn rheolaidd er mwyn rhoi gofal i gleifion mewn ffordd fwy cyfannol sy'n canolbwyntio mwy ar yr unigolyn.

Yn Abertawe, mae'r tîm wedi llunio taflenni â gwybodaeth gyswllt ar gyfer y tîm atal trais a ddosbarthwyd i wahanol adrannau yn y Bwrdd Iechyd i'w rhannu lle y bo'n berthnasol. O ganlyniad, mae mwy o gleifion wedi cael cymorth gan y tîm gan eu bod yn ymwybodol o'r gwasanaeth a'r cymorth y mae'n ei ddarparu. Mae'r gwahanol adrannau wedi croesawu'r taflenni hyn, ac mae'r tîm wrthi'n ystyried y broses o argraffu gwybodaeth gyswllt ar beniau a chylchoedd allweddi at ddibenion rhwydweithio.

Tîm Atal Trais BIP Caerdydd a'r Fro

- Nifer yr unigolion sydd wedi dod i gysylltiad â'r ymyriad:
  - 24 neu'n iau: 117
  - 25 neu'n hŷn: 154
- Nifer y gweithwyr proffesiynol sydd wedi cael hyfforddiant gan yr ymyriad hwn- 788

Tîm Atal Trais BIP Bae Abertawe

- Nifer yr unigolion sydd wedi dod i gysylltiad â'r ymyriad:
  - 24 neu'n iau: 132
  - 25 neu'n hŷn:158
- Nifer y gweithwyr proffesiynol sydd wedi cael hyfforddiant gan yr ymyriad hwn- 352

## Gweithredu dros Blant

Mae tîm Ymarferwyr Ieuenctid Gweithredu dros Blant yn cynnwys unigolion ymroddedig sy'n derbyn atgyfeiriadau gan Dîm Atal Trais y GIG yng Nghaerdydd. Gydag amser ymateb o 48 awr, mae'r tîm yn cynnig cymorth wedi'i dargedu yn seiliedig ar anghenion yr unigolyn, gan hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer dargyfeirio, hyfforddiant a chyflogaeth. Mae gan Gweithredu dros Blant gysylltiad agos â nifer o wasanaethau ieuenctid yn yr ardal. Mae'r tîm yn defnyddio dull dan arweiniad defnyddwyr gwasanaeth (plant a phobl ifanc) a dysgeidiaeth effaith gadarnhaol er mwyn darparu cynlluniau cymorth wedi'u teilwra sydd wedi cael adborth cadarnhaol gan ddefnyddwyr y gwasanaeth am eu bod nhw'n teimlo y gwrandewir arnynt a'u bod yn annog strwythur yn eu bywydau.

Mae'r cymorth wedi'i deilwra a gynigir yn cynnwys eirioli o blaid amodau tai mwy priodol i ddefnyddwyr y gwasanaeth, eu helpu ar eu taith wrth ystyried cydberthnasau personol drwy gael sgyrsiau am gydsyniad a'u cyfeirio at glinigau iechyd rhywiol i gael archwiliadau a dulliau atal cenhedlu a rhoi cymorth i ddefnyddwyr y gwasanaeth drwy gysylltu ag asiantaethau arbenigol eraill lle bo angen. Mae'r tîm hefyd yn mynychu sesiynau llys, yn ymweld â defnyddwyr y gwasanaeth yn y carchar ac yn ysgrifennu llythyrau cefnogol i'r llysoedd.

- Nifer yr unigolion sydd wedi dod i gysylltiad â'r ymyriad (mae'r gwasanaeth wedi'i anelu at blant a phobl ifanc rhwng 11 a 30 oed):
    - 24 neu'n iau: 14
    - 25 neu'n hŷn: 0

## Ymarferydd Cymorth mewn Ysbyty, Abertawe

Mae ymarferydd cymorth llawn amser dynodedig a gyflogir gan Media Academy Cymru yn cael atgyfeiriadau gan Dîm Atal Trais y GIG yn Abertawe. Mae'r gwasanaeth hwn yn cynnig cymorth i bobl ifanc sy'n dod i Adran Achosion Brys Ysbyty Treforys ac Uned Mân Anafiadau Castell-nedd Port Talbot yn dilyn unrhyw achos o drais neu ymosodiad difrifol. Caiff cynllun diogelwch wedi'i deilwra'n benodol ei gwblhau gyda'r person ifanc a rhoddir cymorth addas iddo, gan gynnwys ei atgyfeirio at sefydliadau/rhaglenni sy'n diwallu anghenion y person ifanc. Ochr yn ochr â hyn, mae'r gwasanaeth hefyd yn cynnig cymorth i'w ddefnyddwyr wrth wneud cais am swyddi a thrwy greu amgylchedd diogel i'r defnyddiwr drwy sicrhau bod cymorth priodol ar gael iddo yn yr ysgol, gartref a hyd yn oed yn y gymuned.

Yn ystod y chwarter hwn, mae'r gwasanaeth wedi nodi bod angen hyfforddiant iechyd meddwl a gwaith ieuenctid ac mae wrthi'n ystyried yr opsiynau ar gyfer yr hyfforddiant hwnnw.

- Nifer yr unigolion sydd wedi dod i gysylltiad â'r ymyriad (mae'r gwasanaeth wedi'i anelu at blant a phobl ifanc rhwng 11 a 30 oed):
  - 24 neu'n iau: 28
  - 25-30 oed: 03

## *Parallel Lives*

Mae rhaglen Parallel Lives, sy'n cynnwys grŵp ymroddedig o reolwyr achos o dan arweinyddiaeth cydgysylltydd y rhaglen, yn helpu teuluoedd sy'n dioddef Trais a Chamdriniaeth gan Berson Ifanc yn y Glasoed tuag at Riant/Gofalwr (APVA) ac mae wedi'i lleoli yng Nghaerdydd, Abertawe, a Merthyr Tudful.

Mae Parallel Lives yn cefnogi teuluoedd cyfan drwy eu profiadau o APVA drwy addysgu ar achosion ac effeithiau trais o'r fath, yn ogystal â darparu arweiniad a chymorth ar sut i reoli problemau a gweithio drwyddynt. Caiff yr ymyriad ei gyflwyno gan reolwyr achos sy'n defnyddio dull seiliedig ar gryfderau i feithrin cydberthnasau o fewn y teuluoedd ac i annog pobl ifanc i wneud newidiadau cadarnhaol i'w hymddygiad.

Mae'r rhaglen hefyd yn darparu gwasanaeth pedair haen, sef 'Base', 'Build', 'Boost' a 'Beyond'. Bydd gwerthusiad o'r gwasanaeth hwnnw ar gael yn ystod y chwarter nesaf. Cynhaliwyd y gweithdy 'Boost' cyntaf mewn partneriaeth â Thîm Maethu Cyngor Caerdydd er mwyn helpu rhieni/gofalwyr sydd wedi mabwysiadu pobl ifanc.

- Nifer yr unigolion sydd wedi dod i gysylltiad â'r ymyriad:
    - 24 neu'n iau: 40 (Pobl Ifanc)
    - 25 neu'n hŷn:17 (Rhieni/Gwarcheidwaid/Gofalwyr)

## *Fearless*

Mae Fearless sy'n rhan o ymgyrch Crimestoppers yn cynnwys tîm tosturiol o weithwyr ieuenctid ymroddedig sy'n targedu ardaloedd problemus a nodwyd ledled De Cymru, gan nodi ac ymateb i gyfleoedd i gyflwyno sesiynau ar gamfanteisio’n droseddol ar blant/llinellau cyffuriau, cyffuriau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, troseddau sy'n ymwneud â chyllyll, gwrywdod gwenwynig a throseddau casineb i blant a phobl ifanc mewn lleoliadau addysgol a chymunedol. Mae Fearless hefyd yn hwyluso hyfforddiant i weithwyr proffesiynol wrth nodi arwyddion trais ac ymateb i ddatgeliadau gan blant a phobl ifanc.

Yn ei weithdai ar droseddau sy'n ymwneud â chyllyll, defnyddiodd Fearless ddeunydd #DdimYrUn, gan gynnwys yr adnoddau newydd a lansiwyd yn ystod y chwarter diwethaf.Gan ddefnyddio'r adnoddau newydd, mae Fearless yn anelu at wella lefelau ymgysylltu drwy gynnwys enghreifftiau y gall pobl ifanc uniaethu â nhw gan fod yr astudiaethau achos a fideo'r ymgyrch yn adlewyrchu'r heriau cyfredol y maent yn eu hwynebu.

Yn ystod y chwarter hwn, cynhaliwyd sesiynau ledled Gogledd a Gorllewin Caerdydd a chafodd y sesiynau eu teilwra'n benodol i ddiwallu anghenion a galluoedd penodol y grŵp – gan gynnwys addasu'r sesiwn i ddarparu ar gyfer unigolion ag anableddau dysgu a gorbryder cymdeithasol. Cafodd sesiynau arbenigol hefyd eu teilwra'n benodol gan ystyried rhywedd a chynhaliwyd sesiwn i ferched a oedd yn cynnwys ymwybyddiaeth o faterion fel cysylltiad, camfanteisio rhywiol a rôl cariadon sy'n rhan o gang. Mae'r gwaith a wnaed yn ystod y chwarter hwn wedi dangos pwysigrwydd addasu sesiynau i ymdrin ag anghenion gwahanol aelodau pob grŵp er mwyn gwella eu dealltwriaeth a'u hawydd i ymgysylltu â Fearless.

- Nifer y plant a'r bobl ifanc sydd wedi dod i gysylltiad â'r ymyriad- 6,509
- Nifer y gweithwyr proffesiynol sydd wedi ymgysylltu'n llawn â'r ymyriad- 155

## Braver Choices

Rhaglen waith yw Braver Choices a luniwyd i sicrhau y bydd gan bob plentyn a pherson ifanc yng Nghaerdydd ac Abertawe sy'n defnyddio cyllyll ac arfau eraill, neu'n ystyried eu defnyddio, ymyriad wedi'i deilwra'n benodol sy'n seiliedig ar gryfderau ac yn canolbwyntio ar y plentyn gyda gweithiwr ieuenctid cymwys.

Pan gaiff unigolyn ei atgyfeirio, nodir ei anghenion er mwyn llywio cynllun gweithredu wedi'i deilwra, y mae'r ddwy ochr yn cytuno arno. Drwy gydol y rhaglen, caiff y cynllun hwn ei adolygu er mwyn helpu i sicrhau bod y nodau a osodir yn briodol ac yn berthnasol, a bod yr unigolyn ar y trywydd cywir i gyflawni'r nodau hynny.

Mae gweithwyr achos Braver Choices wedi cyrraedd dros 1,000 o blant a phobl ifanc yn ardaloedd plismona De Cymru a Gwent drwy gynnal 52 o weithdai ar ymwybyddiaeth o arfau a chamfanteisio troseddol. Mae'r gweithwyr achos hefyd wedi hyfforddi 20 o weithwyr proffesiynol o bartneriaethau yn Abertawe sy'n ymwneud â Phlant sy'n wynebu Risg o fod ar Goll, Wedi'u Hecsbloetio a'u Masnachu (CMET) ar sut i ymateb i drais gan ddefnyddio canllawiau a dulliau gweithredu gorau o Fframwaith Cymru Heb Drais.

Nodwyd hefyd fod y Rhaglen yn cael nifer uchel o atgyfeiriadau sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol, felly mae'r opsiwn o gynnal hyfforddiant ymwybyddiaeth o awtistiaeth i weithwyr achos yn cael ei ystyried ar gyfer y chwarter nesaf. Mae'r gweithwyr achos hefyd wrthi'n llunio canllaw i hwyluswyr ar gyfer y rhaglen i'w gwneud hi'n haws i weithwyr proffesiynol gyflwyno gweithdai.

- Nifer yr unigolion sydd wedi dod i gysylltiad â'r ymyriad (mae'r gwasanaeth wedi'i anelu at blant a phobl ifanc rhwng 10 a 18 oed)- 43
- Nifer yr unigolion y llwyddwyd i'w cyrraedd drwy'r gweithdai- 1,400
- Nifer y gweithwyr proffesiynol sydd wedi ymgysylltu'n llawn â'r ymyriad- 20

# Cydgysylltwyr Ymyrryd yn Gynnar ac Atal

Mae'r Uned Atal Trais yn comisiynu dau Gydgysylltydd Ymyrryd yn Gynnar ac Atal sydd wedi'u lleoli yng Nghyngor Caerdydd a Chyngor Abertawe. Mae Cydgysylltydd Caerdydd yn goruchwylio rhanbarth Caerdydd a Bro Morgannwg, gan gydgysylltu ymyriadau arbenigol o fewn cyd-destun partneriaeth Diogelu'r Glasoed rhag Camfanteisio (SAFE). Mae Cydgysylltydd Abertawe yn goruchwylio rhanbarth Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot, gan gydgysylltu ymyriadau arbenigol o fewn cyd-destun partneriaeth Plant sy'n wynebu Risg o fod ar Goll, Wedi'u Hecsbloetio a'u Masnachu (CMET). Gan weithio fel rhan o dîm ehangach, mae'r rôl hon yn golygu y gellir dargyfeirio pobl ifanc oddi wrth achosion o ecsbloetio, trais ymhlith plant a phobl ifanc a throseddau cyfundrefnol difrifol mor gynnar â phosibl drwy sicrhau llwybr atgyfeirio clir at ymyriadau arbenigol, nodi bylchau mewn darpariaeth a gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu ymyriadau newydd sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sy'n cael eu harwain gan ddata.

Mae Cydgysylltydd SAFE Caerdydd wedi helpu'r tîm yng Nghaerdydd i wneud y canlynol:

- Lansio canllawiau ar gyfer defnyddio ffurflen wybodaeth yr heddlu. Rhannwyd y canllawiau hyn â gwasanaethau partner gan gynnwys gwasanaethau yn y trydydd sector, gwasanaethau iechyd, gwasanaethau addysg a gwasanaethau plant.
- Darparu sesiynau dysgu ar-lein er mwyn cefnogi atgyfeiriadau i asiantaethau arbenigol.
- Darparu'r hyfforddiant wyneb yn wyneb 'Think Safe', sy'n tywys gweithwyr proffesiynol drwy'r prosesau atgyfeirio sy'n gysylltiedig ag achosion o gamfanteisio.

Mae Cydgysylltydd CMET Abertawe wedi helpu'r tîm yn Abertawe i wneud y canlynol:

- Sefydlu'r Prosiect Trosglwyddo sy'n anelu at helpu pobl ifanc sy'n trosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd y nodwyd eu bod fwyaf tebygol o wynebu risg o niwed y tu allan i'r teulu (camfanteisio'n droseddol ar blant a thrais ymhlith plant a phobl ifanc).

- Darparu sesiynau diogelwch ar-lein yn ymdrin â chamfanteisio rhywiol a throseddol, cynllunio diogelwch, iechyd a llesiant emosiynol.
- Datblygu Prosiect Unedig CMET, sy'n galluogi'r Cydgysylltydd i gofnodi a chyflwyno demograffeg fwy penodol, gan sicrhau bod y gwasanaeth hwn yn darparu data o ansawdd uchel.

SAFE Caerdydd:

- Nifer yr unigolion sydd wedi dod i gysylltiad â'r ymyriad- Dros 1,500
- Nifer y gweithwyr proffesiynol sydd wedi cael hyfforddiant uniongyrchol gan yr ymyriad hwn- 820

CMET Abertawe:

- Nifer y bobl ifanc sydd wedi dod i gysylltiad â'r ymyriad- 355
- Nifer y gweithwyr proffesiynol sydd wedi cael hyfforddiant gan yr ymyriad hwn- 150

## *Prosiect Positive Masculinity*

Mae prosiect Positive Masculinity yn cefnogi pobl ifanc drwy ddarparu sesiynau ar hunaniaeth, rhywiaeth/casineb at fenywod, teulu a diwylliant, patriarchaeth, modelau rôl, profiadau yn yr ysgol, iechyd meddwl ac effaith unigolion sy'n gweld digwyddiadau. Nod y sesiynau hyn yw helpu pobl ifanc i ddatblygu hunaniaeth bersonol fwy cadarnhaol, meithrin cydberthnasau iach, gwella eu sgiliau meddwl yn feirniadol, gwella diogelwch personol a'u helpu i ddeall sut i ymddwyn yn briodol pan fyddant yn gweld pobl yn ymddwyn mewn ffordd wenwynig. Mae'r gwasanaeth yn defnyddio Fframwaith Cymru Heb Drais fel sail dystiolaeth ar gyfer datblygu a chyflwyno sesiynau effeithiol llawn gwybodaeth ar wrywdod cadarnhaol.

Gan fod yr ymyriad yn gymharol newydd, mae wrthi o hyd yn datblygu ei strwythur er mwyn gwella lefelau ymgysylltu ac effeithiolrwydd, yn seiliedig ar adborth gan y bechgyn a'r dynion ifanc sydd wedi cymryd rhan yn y prosiect.

- Nifer yr unigolion sydd wedi dod i gysylltiad â'r ymyriad (mae'r gwasanaeth hwn wedi'i anelu at fechgyn a dynion ifanc sydd yn yr ysgol ar hyn o bryd)- 10

# Y CHWARTER MEWN RHIFAU

## Mehefin- Medi 2024

**1.8K**
**O DDEFNYDDWYR UNIGRYW**

**2.3K**
**O SESIYNAU**

Gwefan Uned Atal Trais Cymru

**7**
**CYFLWYNIAD**

**2**
**GYHOEDDIAD**

**2**
**DDIGWYDDIAD WEDI'U CYNNAL**

**59**
**O BOBL WEDI MYNYCHU EIN DIGWYDDIAD**

Os oes gennych adnoddau yr hoffech eu cynnwys yn yr e-fwletin, neu os gwnaeth rhywun anfon yr e-fwletin hwn ymlaen atoch ac yr hoffech danysgrifio, anfonwch e-bost at:
phw.violencepreventionunit@wales.nhs.uk

I gael rhagor o wybodaeth am ein gwaith, ewch i:
www.violencepreventionwales.co.uk/cy/

Instagram | LinkedIn

Uned Atal Trais
Violence Prevention Unit